

# Ymgynghoriad ar safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol technegwyr fferyllol

## Adroddiad dadansoddi'r ymgynghoriad

### Ynghylch yr adroddiad hwn

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar safonau addysg a hyfforddiant (AHC) ar gyfer technegwyr fferyllol. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos a daeth i ben ar 1 Mawrth 2017. Cynhaliom hefyd nifer o ddigwyddiadau ymglymu'n ymwneud â'r ymgynghoriad.
2. Roedd tair rhan i'r ddogfen ymgynghori:
  - a. Rhan 1: Safonau AHC ar gyfer technegwyr fferyllol – canlyniadau dysgu
  - b. Rhan 2: Safonau AHC ar gyfer darparwyr cyrsiau; a,
  - c. Rhan 3: Newidiadau i'r meini prawf i gofrestru'n dechnegydd fferyllol
3. Yn ogystal â'r cwestiynau yn y rhannau uchod, gofynnem hefyd am adborth penodol ar ein dadansoddiad ar gydraddoldeb.
4. Mae cwestiynau'r ymgynghoriad wedi eu rhestru isod.

1. Safonau AHC ar gyfer technegwyr fferyllol – deilliannau dysgu: Ai'r rhain yw'r deilliannau cywir, ar y lefel gywir?
2. Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau AHC: Ai'r rhain yw'r safonau a'r meini prawf cywir?
3. Nawr bod technegwyr fferyllol yn grŵp penodol sefydledig yn ein cofrestr, credwn y dylai pobl sy'n hyfforddi cyn cofrestru fel technegwyr fferyllol allu cael eu goruchwylio gan y grŵp cofrestredig maen nhw'n bwriadu ymuno ag ef. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â'r newid arfaethedig hwn a'i effaith bosibl?
4. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch a ddylem gadw'r gofyniad profiad gwaith dwy flynedd neu a ddylem gyflwyno newid, ac ynglŷn ag unrhyw effaith bosibl?
5. Rydym yn cynnig y dylai fferyllwyr sy'n dymuno cofrestru yn dechnegwyr fferyllol orfod cwblhau'r un addysg a hyfforddiant cychwynnol â phobl sy'n hyfforddi cyn cofrestru yn dechnegwyr fferyllol, er y gallent wneud cais i ddarparwr eu cwrs i gydnabod eu dysg a'u profiad blaenorol. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â'r newid arfaethedig hwn a'i effaith bosibl?
6. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â hyfforddiant yn y gweithle a sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant cychwynnol?

7. A ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth yn y safonau neu'r newidiadau a argymhellir i'r meini prawf ar gyfer cofrestru yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp penodol o'i gymharu â grwpiau eraill?

8. A oes gennych sylwadau eraill?

5. Roedd pob un o'r cwestiynau a ofynnwyd yn 'gwestiynau agored' er mwyn ceisio cael ystod mor eang â phosibl o adborth ar bob un o'r materion yr oedd y cwestiynau'n holi amdanynt.

## Gan bwy y clywom

6. Derbyniom ymatebion ysgrifenedig gan 76 o sefydliadau a 281 o unigolion. Derbyniwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn electronig drwy arolwg ar-lein, gyda nifer fechan yn cael eu cyflwyno drwy e-bost.
7. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr unigol (265, tua 94 y cant) yn eu galw'u hunain yn weithwyr fferyllol proffesiynol, gyda rhyw 83 y cant (217) yn dweud eu bod yn dechnegwyr fferyllol, a rhyw 16 y cant yn fferyllwyr (43). Dywedodd ychydig dros 3.5 y cant (10) eu bod yn hyfforddi cyn cofrestru'n dechnegwyr fferyllol (HCCTFf).
8. Defnyddiwyd cwestiynau'r arolwg ar-lein yn strwythur i'n digwyddiadau ymglymu, gan ganiatáu i ni nodi barn pobl a'i chynnwys yn y dadansoddiad hwn.
9. Daeth rhyw 320 o unigolion a chynrychiolwyr sefydliadau i'r digwyddiadau hyn.
  - a. Mae rhestr lawn o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn Atodiad A.
  - b. Mae manylion ynghylch y digwyddiadau ymglymu yn Atodiad B.

## Yr hyn a glywom

10. Mae strwythur yr adran hon yn dilyn yr un strwythur â'r ddogfen ymgynghori a'r holiadur.
11. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau agored yn unig a dadansoddiwyd y rhain yn defnyddio proses godio iteradd a nododd themâu a ddaeth i'r amlwg.
12. Rydym yn nodi'r nifer o ymatebion a gafwyd ac yn crynhoi'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg ar gyfer pob cwestiwn. Pan yn bosibl, rydym wedi trefnu'r dadansoddiad drwy gyflwyno'r graddau yr oedd pobl yn cytuno neu'n anghytuno gyda phob cwestiwn.

## Rhan un yr ymgynghoriad

13. Roedd rhan un yr ymgynghoriad yn egluro'r safonau AHC arfaethedig a'r deilliannau dysgu y bydd HCCTFf wedi eu cyflawni wrth gwblhau eu haddysg a hyfforddiant yn llwyddiannus.

### Cwestiwn 1: Sylwadau cyffredinol

*“Safonau AHC ar gyfer technegwyr fferyllol – deilliannau dysgu: Ai rhain yw'r deilliannau cywir, ar y lefel gywir?”*

14. Derbyniom 334 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
15. Roedd ymatebion gweithwyr fferyllol a sefydliadau yn awgrymu eu bod yn cytuno'n gyffredinol bod y deilliannau dysgu arfaethedig ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol technegwyr fferyllol yn gywir.
16. Ymhlith yr ymatebion a nododd gefnogaeth ddiamwys i'r deilliannau dysgu, dyma oedd y themâu a ddaeth i'r amlwg:
- ystyriwyd bod gwreiddio diogelwch cleifion, proffesiynoldeb a'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol sy'n hyfforddi yn rhywbeth cadarnhaol;
  - cefnogwyd y cynnig i gynnwys gwirio cywirdeb a rheoli meddyginiaethau yn y cymhwyster cychwynnol am fod y sgiliau hyn nawr yn ganolog i rôl y technegydd fferyllol;
  - cefnogwyd y cynnig i gynnwys cysyniadau diogelwch craidd, llywodraethiant clinigol a chorfforaethol a gweithio mewn timau amlddisgyblaeth; ac
  - ystyriwyd bod gwella'r cysylltiadau rhwng darparwyr cyrsiau a chyflogwyr yn bwysig i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei thro'i'n ymarfer.
17. Nododd lleiafrif o'r ymatebwyr yn glir eu bod yn anghytuno gyda'r deilliannau dysgu. Rhoddir crynodeb o'u safbwyntiau yma:
- Roedd nifer fechan o ymatebwyr o'r farn nad oedd safonau'r cwrs yn gywir a'u bod, o bosibl, wedi eu gosod yn rhy uchel; gofynnodd rhai hefyd am eglurder ynghylch cwmpas a lefel y deilliannau er mwyn osgoi drysu rhwng rôl y fferylllydd a rôl y technegydd fferyllol.
  - Roedd ambell ymatebydd yn teimlo bod angen maes llafur enghreifftiol ar gyfer y deilliannau gwybodaeth er mwyn iddynt gael eu cyflawni mewn ffordd gyson ac effeithiol. Roedd teimlad y byddai maes llafur enghreifftiol yn osgoi gwahanol ddehongliadau o lefel a dyfnder y wybodaeth y byddai cyrff dyfarnu a darparwyr cyrsiau yn gofyn amdani.
18. Roedd sylwadau gan ymatebwyr oedd yn cytuno'n gyffredinol gyda'r safonau AHC yn unig yn canolbwyntio ar ddau faes yn benodol:
- a. cynnwys gwiriadau cywirdeb a rheoli meddyginiaethau; a,
  - b. diffyg cyfeirio yn y safonau drafft at dechneg aseptig, yr oedd llawer yn ei hystyried yn rôl greiddiol ar gyfer technegwyr fferyllol mewn ysbytai.

19. Tynnodd nifer o ymatebwyr i gwestiwn un sylw at fater gwiriadau cywirdeb yn y sylwadau cyffredinol ac yn y sylwadau ar ddeiliant dysgu 37 yn y ddogfen ymgynghori (*Cynnal gwiriad cywirdeb o feddyginiaethau a chynhyrchion i'w dosbarthu*)
20. Crynhoir rhai o'r sylwadau allweddol (naill ai am iddynt ymddangos nifer o weithiau neu am ein bod yn credu y dylid eu cynnwys er mwyn bod yn dryloyw) isod:
- Awydd i gael rhagor o eglurder ar ddiffiniad cywirdeb a dryswch ynghylch ai at “gwirio cywirdeb terfynol” yr oedd y safonau drafft yn cyfeirio, a sut y byddai'r safon yn cymharu â'r cymhwyster technegydd fferyllol gwirio achrededig (ACPT), neu ddatblygu sgiliau cywirdeb a hunan-wirio yn y broses ddosbarthu meddyginiaethau.
  - Roedd rhai, er eu bod yn cefnogi cynnwys gwirio cywirdeb am eu bod yn teimlo y byddai'n helpu hyfforddeion i ddatblygu methodoleg hunan-wirio gyson, yn poeni nad oedd gwirio cywirdeb terfynol yn weithgaredd lefel mynediad ac nad oedd yn briodol i dechnegwyr fferyllol oedd newydd gymhwyso ymgymryd â'r dasg.
  - Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen mwy o hyder, aeddfedrwydd, profiad a hyfforddiant ar gyfer gwneud gwiriadau cywirdeb yn ddiogel. Nododd nifer o'r ymatebwyr hyn fod angen o leiaf ddwy flynedd o brofiad ôl-gofrestru cyn cychwyn ar y cymwysterau lefel 4 ar gyfer rolau ymarfer uwch ac y byddai eu cynnwys yn addysg a hyfforddiant cychwynnol technegwyr fferyllol yn andwyol i ddiogelwch cleifion.
  - Nododd ambell ymatebydd bod gwahaniaeth rhwng pa mor gymhleth y mae presgripsiynau mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol, a bod technegwyr sy'n gwneud gwaith gwirio cywirdeb mewn ysbytai yn aml yn gwneud gwiriadau clinigol ychwanegol hefyd a nodi materion y gellir bod wedi eu colli ar y gwiriad cyntaf. Nodwyd na fyddai gan dechnegwyr fferyllol oedd newydd gymhwyso y profiad i allu gwneud hyn.
  - Roedd sylwadau eraill yn cynnwys pryderon y byddai cynnwys gwiriadau cywirdeb a rheoli meddyginiaethau yn gallu gwneud technegwyr fferyllol newydd gymhwyso yn fwy deniadol i gyflogwyr ac y gallai effeithio ar gynnydd o fewn gyrfa a bandiau tâl ar gyfer technegwyr fferyllol newydd gymhwyso a rhai sydd eisoes yn eu gwaith.
21. Roedd ymateb un sefydliad yn nodi y dylid creu diffiniad rôl ar gyfer technegwyr fferyllol cyn iddyn nhw allu rhoi barn ar y deilliannau addysg a dysg.

### Cwestiwn 1: Sylwadau penodol ar ddeilliannau dysgu

22. Nododd yr ymgynghoriad y cynigion ar gyfer deilliannau dysgu. Rhannwyd y rhain yn bedwar 'parth': gofal â phobl yn ganolog iddo; proffesiynoldeb; gwybodaeth broffesiynol; a chydweithio.
23. Mae lefelau'r deilliannau yn y safon wedi eu seilio ar hierarchaeth galluedd ac asesu gydnabyddedig o'r enw 'triongl Miller'. Roedd cytundeb cyffredinol yn yr ymatebion bod y rhan fwyaf o'r deilliannau dysgu ar y lefel gywir (sef 'Gwybod', 'Gwybod sut', 'Dangos sut' a 'Gwneud').
24. Yn ychwanegol at y sylwadau ar wirio cywirdeb (deilliant dysgu 37) cafwyd hefyd nifer o sylwadau a chwestiynau ynghylch drafftio'r deilliannau dysgu eraill.
25. Gofynnwyd cwestiynau, er enghraifft, am y gair 'diogelwch' yn neilliant dysgu drafft 32 ac a oedd angen eglurder y byddai hyn yn wahanol i wiriad gan fferylllydd ynghylch priodoldeb clinigol (*Derbyn presgripsiynau a gwirio eu dilysrwydd, diogelwch ac eglurder, gan weithredu i ddelio ag unrhyw broblemau*).
26. Cododd rhai ymatebwyr gwestiynau yn holi a oedd dyblygu rhwng y deilliannau dysgu, yn benodol deilliannau dysgu drafft 37 a 48 (*Gwirio eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill yn effeithiol*).
27. Cafwyd adborth penodol hefyd i ddeilliant dysgu drafft 42 (*yn cynnwys darparu cymorth cyntaf*) ac a ddylid diwygio'r geiriad i adlewyrchu gwahanol leoliadau a phriodoldeb rhoi cymorth cyntaf, er enghraifft, mewn lleoliadau ysbyty neu gymunedol.

### Cwestiwn 1: Sylwadau penodol ar 'lefelau' deilliannau yn y deilliannau dysgu drafft

28. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai'r deilliannau canlynol fod yn '**Gwneud**' yn hytrach na '**Gwybod sut**' fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad:
  - *Deilliant dysgu 9* - 'Hyrwyddo'n effeithiol ffyrdd o fyw iach gan ddefnyddio adnoddau sydd ar gael a thechnegau seiliedig ar dystiolaeth'
  - *Deilliant dysgu 10* - 'Gallu darparu cyngor iechyd cyhoeddus ac argymell sgrinio iechyd cydnabyddedig neu fentrau iechyd cyhoeddus'
  - *Deilliant dysgu 29* - 'Asesu cyflenwad meddyginiaeth presennol person ac archebu meddyginiaethau a chynhyrchion priodol'
  - *Deilliant dysgu 30* - 'Adolygu'n gywir feddyginiaeth person er mwyn nodi'r meddyginiaethau sydd eu hangen arnynt'
  - *Deilliant dysgu 31* - 'Archebu, derbyn, cynnal a chyflenwi meddyginiaethau a chynhyrchion fferyllol eraill yn ddiogel, cyfreithlon ac effeithiol'
  - *Deilliant dysgu 39* - 'Sicrhau ansawdd cynhwysion er mwyn cynhyrchu a chyflenwi meddyginiaethau a chynhyrchion diogel ac effeithiol'
  - *Deilliant dysgu 41* - 'Gwaredu'n ddiogel a chyfreithlon feddyginiaethau a chynhyrchion fferyllol eraill'

29. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r deiliant canlynol fod yn 'Gwybod sut' yn hytrach na 'Gwneud' fel sydd yn yr ymgynghoriad:

- *Deiliant dysgu 32* – 'Derbyn presgripsiynau a gwirio eu dilysrwydd, diogelwch ac eglurder, gan weithredu i ddelio ag unrhyw broblemau'

#### **Cwestiwn 1: Cynnig deilliannau dysgu ychwanegol**

30. Awgrymodd ambell ymatebydd ddeilliannau dysgu ychwanegol, er enghraifft:

- Ymgynghori gyda chleifion
- Seicoleg clefydau a salwch a deall ymddygiad cleifion a'u hagwedd tuag at salwch, er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli cleifion â chyflyrau iechyd hir dymor
- Technoleg gwybodaeth fferyllol, er enghraifft: eHealth, trosglwyddo data yn electronig, archebu awtomataidd/cydosod robotig

#### **Cwestiwn 1: Sylwadau drafftio ychwanegol**

31. Derbyniwyd nifer o sylwadau ynghylch drafftio manylach er mwyn dileu amwysedd posibl, a bydd y rhain i gyd yn cael eu hystyried ar wahân.

## Rhan dau yr ymgynghoriad

32. Roedd rhan dau'r ymgynghoriad yn egluro'r safonau AHC y byddai'n rhaid i ddarparwyr cyrsiau eu cyrraedd wrth gyflawni deilliannau AHC ar gyfer technegwyr fferyllol fel y'u nodwyd yn rhan un yr ymgynghoriad.

### Cwestiwn dau: Sylwadau cyffredinol

*Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau AHC: Ai'r rhain yw'r safonau a'r meini prawf cywir?*

33. Derbyniom 303 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
34. Roedd ymatebion gweithwyr fferyllol a sefydliadau yn awgrymu eu bod yn gyffredinol yn cytuno bod y safonau AHC drafft ar gyfer darparwyr cyrsiau yn gywir.

### Adborth ar Barth un – anghenion dethol a derbyn

35. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen i'r lefel a'r meini prawf derbyn ar gyrsiau fod yn fwy penodol ac y dylent gynnwys nid yr iaith Saesneg a rhifedd yn unig, ond hefyd gwyddoniaeth, cemeg a bioleg fel lleiafswm derbyn. Awgrymodd ymatebwyr y byddai hyn yn cefnogi'r egwyddorion fferyllol o fformiwleiddio a pharatoi ac egwyddorion fferyllol sylfaenol defnyddio meddyginiaethau.
36. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod angen cynyddu trothwy derbyn mewn addysg a hyfforddiant fferyllwyr technegol. Roedd rhai pryderon, fodd bynnag, y byddai gwneud hyn yn atal rhai pobl heb gymwysterau traddodiadol ond oedd yn meddu ar brofiad gwaith fferyllol, fel dosbarthwyr meddyginiaethau er enghraifft, rhag ymgeisio.
37. Nododd nifer o ymatebwyr y dylai'r meini prawf derbyn gynnwys nodweddion gofal a phroffesiynoldeb, gan gydnabod y gallai hyn olygu newidiadau i'r prosesau recriwtio a derbyn presennol.
38. Gwnaeth rhai ymatebwyr gais am ganllawiau a chymorth gan y CFFC ar gyfer darparwyr cyrsiau a chyflogwyr ynghylch yr hyn a ddylai fod yn rhan o wiriadau cymeriad ac iechyd. Awgrymwyd hefyd y dylai'r canllawiau hyn nodi enghreifftiau lle gall pryderon godi yn ystod hyfforddiant ac effeithio ar addasrwydd yr hyfforddai ar gyfer bod ar y gofrestr yn y dyfodol.

### Adborth ar Barth tri – rheoli, adnoddau a chapasiti

39. Nododd rhai ymatebwyr y dylai'r safonau roi eglurder ychwanegol ynghylch cyfrifoldebau dros bob rhan o'r ddarpariaeth, naill ai'r corff dyfarnu, darparwr y cwrs neu'r cyflogwr.
40. Cyfeiriodd ambell ymatebydd yma at wrthdaro posibl rhwng darparwyr cyrsiau a chyflogwyr sy'n ariannu'r ddarpariaeth, gan nodi enghraifft lle gallai darparwr nodi diffyg cefnogaeth yn y gweithle, a allai arwain at golli busnes pe bai'r cyflogwr wedyn yn dewis darparwr arall oherwydd yr adborth.

41. Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd y dylai'r safonau gynnwys gofyniad bod staff sy'n darparu cyrsiau yn rhan weithredol o ymarfer fferyllol ac y dylai hyfforddwyr yn y gweithle fod wedi eu hyfforddi i fod yn hyfforddwyr ac mai aseswyr gweithle yn unig a ddylai asesu hyfforddiant yn y gweithle.

#### **Adborth ar Barth pedwar – monitro, adolygu a gwerthuso a Pharth pump – cynllun a darpariaeth cyrsiau**

42. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen adolygu a monitro sefydliadau a darparwyr yn gyson i sicrhau eu bod yn cyrraedd yr un safonau.
43. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cael un cwrs safonol ar gyfer pob darparwr, o ran dysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell, er mwyn sicrhau nad oedd gwahaniaethau mawr rhwng darparwyr a chyrrff dyfarnu. Roedd rhai ymatebwyr, fodd bynnag, yn credu y byddai un cymhwyster sengl yn rhwystro dyblygu, ac eraill yn cwestiynu faint o ddyblygu oedd yn digwydd o gwbl mewn gwirionedd.
44. Cafwyd adborth gan rai ymatebwyr y dylai lefel y cymhwyster ar gyfer technegwyr fferyllol fod yn uwch na lefel 3 NVQ, a dylid ei osod ar lefel 4 pe bai gwirio cywirdeb a rheoli meddyginiaethau yn cael eu cynnwys.
45. Mynegodd rhai ymatebwyr ofid ynghylch mor wahanol y gallai profiad gwaith mewn gweithle fod, a'r gefnogaeth a roddir gan gyflogwyr a gwahanol sectorau. Awgrymwyd bod angen safoni hyfforddiant yn y gweithle. Roedd ambell ymatebydd yn poeni na allai fferyllfa gymunedol, o bosibl, ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol ar gyfer y cymhwyster newydd yn yr hinsawdd sydd ohoni.
46. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai cysylltiadau cryfach rhwng darparwyr cyrsiau a chyflogwyr i gefnogi hyfforddiant hyfforddeion yn y gweithle a sicrhau ansawdd yr hyfforddiant hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau rhwng llefydd.
47. Roedd lleiafrif bychan o'r ymatebwyr o'r farn y dylid trin technegwyr fferyllol dan hyfforddiant yn yr un ffordd â hyfforddeion fferyllol cyn-gofrestru ac mai dim ond gyda thiwtor cydnabyddedig y dylent dderbyn hyfforddiant yn y gweithle.
48. Cafwyd adborth hefyd ar faen prawf 3.7 (isod mewn italig) a nodwyd bod myfyrwyr llawn amser yn yr Alban yn cychwyn a chwblhau elfen wybodaeth y cymhwyster mewn coleg addysg bellach gyntaf ac na fyddent mewn amgylchedd dysgu yn y gweithle, ac felly na fyddai'n bosibl cael cyswllt rhwng darparwyr cwrs a gweithleoedd.

*Rhaid i bob technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-gofrestru gael ei gefnogi fel dysgwr yn y gweithle. Rhaid bod systemau ar waith ar gyfer cysylltu â darparwyr cyrsiau yn rheolaidd ynglŷn â chynnydd technegydd fferyllol dan hyfforddiant cyn-gofrestru.*



## Adborth ar Barth chwech – asesu cyrsiau

49. Rhoddodd rhai ymatebwyr enghreifftiau o'r gwahaniaethau mewn anghenion derbyn a phrosesau asesu rhwng gwahanol gyrff dyfarnu. Mewn un enghraifft a roddwyd gan ymatebydd, roedd rhaid i hyfforddai fodloni meini prawf ar sawl achlysur cyn iddo neu iddi allu cwblhau'n llwyddiannus tra bo sefydliad arall yn gofyn i hyfforddeion fodloni'r meini prawf unwaith yn unig.
50. Awgrymodd ambell ymatebydd y dylai cyflawniad hyfforddai gael ei asesu'n annibynnol cyn iddo neu iddi allu cofrestru.
51. Roedd rhai ymatebwyr eisiau rhagor o eglurder ynghylch nifer o safonau a meini prawf, megis:
  - Maen prawf 6.3 – 'Rhaid i asesiad cymhwysedd ddigwydd yn y gweithle'
  - Maen prawf 6.7 - 'Rhaid i asesiadau gael eu cynnal gan bobl sydd wedi'u hyfforddi ac sydd â'r cymwysterau priodol ac sy'n gymwys i asesu perfformiad technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-gofrestru'
52. Roedd ymatebwyr yn derbyn y byddai'n rhaid hyfforddi aseswyr, ond roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a fyddai digon o aseswyr gyda chymwysterau uwch ar gael i asesu'r cymhwyster newydd.
53. Awgrymodd ambell un newid geiriad. Er enghraifft:
  - Maen prawf 1.2 - '*Rhaid bod ymgeiswyr fod yn gweithio mewn lleoliad fferyllol ac yn cael eu goruchwylio gan fferyllydd neu dechnegydd fferyllol*'. Cafwyd awgrym y dylid newid hyn i, '*Rhaid bod ymgeiswyr yn gweithio mewn lleoliad fferyllol, neu fod wedi sicrhau lleoliad fel technegydd fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant*'.
54. Ailadroddodd nifer fechan o ymatebwyr eu pryder o ran cynnwys gwirio cywirdeb a rheoli meddyginiaethau yn neilliannau dysgu'r cymhwyster cychwynnol ac roedd rhai am gael eglurder ynghylch yr hyn a fyddai'n digwydd i hyfforddai pe bai'n methu a llwyddo yn y rhan gwirio cywirdeb o'r cymhwyster (h.y. a fyddai wedyn yn methu â chymhwyso'n dechnegydd fferyllol).

## Rhan tri yr ymgynghoriad

55. Mae rhan tri'r ymgynghoriad yn nodi cynigion i newid y meini prawf ar gyfer cofrestru fel technegydd fferyllol mewn tri maes penodol:
- Technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn gallu hyfforddi dan gyfarwyddyd, arweiniad neu oruchwyliaeth technegydd fferyllol neu fferyllydd
  - Cyflwyno peth hyblygrwydd i'r profiad gwaith dwy flynedd a gosod gofyniad lleiafswm oriau ar gyfer y cyfnod hyfforddi
  - Dileu'r opsiwn i fferyllwyr presennol neu newydd gymhwyso ym Mhrydain Fawr neu Ogledd Iwerddon allu cofrestru'n dechnegwyr fferyllol yn awtomatig
56. Roedd y rhan hon o'r ymgynghoriad hefyd yn ystyried materion cyffredinol yn ymwneud ag ansawdd a hyfforddiant wedi ei seilio yn y gweithle ac effaith y cynigion, ac roedd hefyd yn rhoi cyfle i ymatebwyr wneud unrhyw sylwadau eraill.

## Cwestiwn tri: Sylwadau ac adborth cyffredinol

*Nawr bod technegwyr fferyllol yn grŵp penodol sefydledig yn ein cofrestr, credwn y dylai pobl sy'n hyfforddi cyn cofrestru fel technegwyr fferyllol allu cael eu goruchwyllo gan y grŵp cofrestredig maen nhw'n bwriadu ymuno ag ef. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â'r newid arfaethedig hwn a'i effaith bosibl?*

57. Mae'r meini prawf cofrestru presennol yn dweud bod yn rhaid i hyfforddeion hyfforddi dan gyfarwyddyd, arweiniad neu oruchwyliaeth fferyllydd yn unig. Mae'r cynnig yn galluogi hyfforddeion i hyfforddi dan gyfarwyddyd, arweiniad neu oruchwyliaeth technegydd fferyllol neu fferyllydd.
58. Roedd cwestiwn tri yn gofyn i ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw sylwadau am y newid arfaethedig hwn a'i effaith bosibl. Derbyniom 333 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
59. Roedd mwyafrif yr atebion gan weithwyr fferyllol proffesiynol a sefydliadau yn cytuno gyda'r cynnig i ganiatáu i hyfforddeion hyfforddi dan gyfarwyddyd, arweiniad neu oruchwyliaeth technegydd fferyllol neu fferyllydd.
60. Y rhesymau a roddwyd amlaf dros gefnogi'r newid oedd y canlynol:
- Mae'r cynnig yn cydnabod proffesiwn y technegydd fferyllol fel un ar wahân i broffesiwn y fferyllydd
  - Dylai technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant gael eu goruchwyllo gan y grŵp o aelodau y byddant yn ymuno â nhw ac mae angen iddynt weithio gydag aelodau cofrestredig sydd â'r wybodaeth dechnegol briodol, sy'n gwneud y swydd y maen nhw'n hyfforddi ar ei chyfer ac sy'n gallu dangos iddyn nhw yr hyn sy'n ofynnol yn y rôl.
  - Mae goruchwyliaeth gan dechnegwyr fferyllol eisoes yn digwydd mewn ysbytai, lle mae technegwyr fferyllol yn rheoli llawer o feysydd, felly dylai hyn ddigwydd mewn sectorau eraill hefyd.
61. Roedd cydnabyddiaeth hefyd y dylai fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ill dau fod yn rhan o'r gwaith o oruchwyllo, fferyllwyr yn benodol oherwydd eu gwybodaeth ac arbenigedd clinigol. Dywedodd nifer fechan o ymatebwyr y byddai caniatáu i dechnegwyr fferyllol oruchwyllo hyfforddeion yn ei gwneud yn haws i fferyllwyr reoli amser a rhyddhau amser i fferyllwyr ymgymryd â rolau clinigol y gallan nhw yn unig

eu cyflawni. Roedd barn gymysg, fodd bynnag, ynghylch ai fferyllwyr cofrestredig yn unig a ddylai benderfynu a yw deilliannau dysgu wedi eu sicrhau'n llwyddiannus gan hyfforddeion.

62. Roedd cefnogaeth gref hefyd i'r syniad bod angen profiad, cymwysterau penodol a hyfforddiant ar y rhai sy'n goruchwyllo, boed yn fferyllwyr neu'n dechnegwyr fferyllol, a dylent gael eu gallu wedi ei asesu cyn gweithredu fel goruchwylwyr.
63. Nododd y lleiafrif o weithwyr fferyllol a sefydliadau a nododd yn eu hymatebion eu bod yn anghytuno gyda'r cynnig hwn y rhesymau canlynol:
  - Dim ond dan oruchwyliaeth fferyllwyr y dylai technegwyr fferyllol dan hyfforddiant hyfforddi, gan fod mewnbwn fferyllwyr i hyfforddiant yn hanfodol
  - Roedd fferyllwyr yn fwy cymwys o ran eu gwybodaeth glinigol ac felly'n gallu rhoi gwell cyfarwyddyd a chefnogaeth i hyfforddeion
  - Roedd derbyn hyfforddiant gan fferyllwyr o fudd i dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant am fod hyn yn rhoi dealltwriaeth iddynt o wahanol gyfrifoldebau a rolau.
64. Cododd yr ymatebwyr oedd yn anghytuno hefyd bryderon ynghylch ansawdd yr hyfforddiant y byddai technegwyr fferyllol dan hyfforddiant yn ei dderbyn pe baent yn cael eu hyfforddi gan dechnegwyr fferyllol oedd newydd gymhwyso, oni bai bod canllawiau ynghylch pwy oedd yn cael goruchwyllo ac ym mha amgylchiadau.

## Cwestiwn pedwar: Sylwadau ac adborth cyffredinol

*A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch a ddylem gadw'r gofyniad profiad gwaith dwy flynedd neu a ddylem gyflwyno newid, ac ynglŷn ag unrhyw effaith bosibl?*

65. Dan y meini prawf presennol, rhaid i dechnegydd fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant dreulio o leiaf ddwy flynedd ar brofiad gwaith yn y DU, ac mae hyn yn cynnwys lleiafswm oriau ar gyfer y cyfnod ar brofiad gwaith. Gofynnwch a ddylai hyn barhau, neu a ddylid cyflwyno hyblygrwydd er mwyn i hyfforddeion gyflawni'r deilliannau dysgu mewn llai na dwy flynedd pe baen nhw'n gallu, gyda mesurau diogelwch priodol yn eu lle.
66. Derbyniom 343 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
67. Roedd mwyafrif yr ymatebion gan weithwyr fferyllol proffesiynol yn cefnogi'r gofyniad profiad gwaith o ddwy flynedd.
68. Y rheswm a roddwyd amlaf dros gefnogi'r status quo oedd bod angen dwy flynedd ar dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant i feithrin y wybodaeth sydd ei hangen a chael ystod o brofiadau ymarferol. Nodwyd y dylai barhau gan fod profiadau dysgu gwerthfawr yn digwydd yn ystod y cyfnod hwn a bod y cyfnod hwn yn angenrheidiol, yn enwedig os yw'r safonau i gynnwys y cynnig i wneud gwiriadau cywirdeb a mwy o gynnwys clinigol.
69. O ran diogelwch cleifion, roedd teimlad bod angen o leiaf ddwy flynedd o brofiad gwaith er mwyn i dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant ddangos eu bod yn abl i gynnal gwiriadau cywirdeb. Roedd ymatebwyr o'r sector ysbytai hefyd o'r farn bod unrhyw gyfnod llai na dwy flynedd yn annigonol ar gyfer fferylliaeth ysbyty oherwydd bod angen cyfnodau mewn dosbarthu, gwaith aseptic a rheoli meddyginiaethau.
70. Nododd ymatebwyr na fyddai technegwyr fferyllol dan hyfforddiant yn gallu treulio digon o amser yn yr adrannau gwahanol ac ennil ac arddangos gallu cyson mewn llai na dwy flynedd.
71. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys:
  - Cefnogi cadw'r ddwy flynedd a hefyd y lleiafswm ar gyfer oriau gwaith
  - Pryder y gallai lleihau'r ddwy flynedd o brofiad gwaith roi pwysau ar fyfyrwyr i orffen yn gynt, am y byddai codiad mewn cyflog yn ddeniadol, neu bwysau ar ddarparwyr cyrsiau i frysio dysgwyr i gwblhau cyn iddyn nhw fod yn barod, er mwyn diwallu anghenion gwasanaeth. Roedd eraill yn poeni y gallai lleihau'r cyfnod effeithio ar ansawdd yr hyfforddiant a bygwth diogelwch cleifion.
72. Roedd lleiafrif ymhlith y rhai oedd o blaid cynnal y ddwy flynedd o brofiad gwaith yn cydnabod, fodd bynnag, y byddai rywffaint o hyblygrwydd o fewn y gofyniad profiad gwaith o fudd i rai oedd â phrofiad blaenorol mewn fferylliaeth, er enghraifft dosbarthwyr meddyginiaethau, swyddogion technegol cynorthwyol, neu fferyllwyr oedd am gymhwyso a chofrestru'n dechnegwyr fferyllol.
73. Roedd rhai ymatebwyr o blaid cyflwyno peth hyblygrwydd i'r profiad gwaith dwy flynedd am eu bod yn cydnabod bod gwahanol hyfforddeion yn gweithio ar gyflymdra gwahanol, ac y dylai rhai oedd yn gallu cyflawni'r deilliannau dysgu i gyd dan ddwy flynedd, gan ddefnyddio achrediaid profiad gwaith blaenorol neu hyfforddiant mewn fferylliaeth, allu gwneud hynny. Gallai hyn gynnwys profiad megis

gweithio fel dosbarthwr meddyginiaethau gyda chymhwyster lefel 2 neu fod yn fferylllydd wedi cymhwyso dramor, ac ni ddylai fod angen iddyn nhw gyflawni profiad gwaith dwy flynedd er mwyn bod yn gymwys i gofrestru.

74. Roedd nifer o ymatebwyr, er eu bod yn cytuno gyda hyblygrwydd o ran y ddwy flynedd, yn teimlo y dylid cadw'r lleiafswm oriau i'w gweithio mewn profiad gwaith er mwyn sicrhau na fyddai technegwyr fferyllol dan hyfforddiant yn cymhwyso ar ôl ond ychydig oriau o brofiad gwaith. Roedd teimlad na fydden nhw wedi ennill digon o brofiad i allu arddangos gallu cyson.
75. Roedd lleiafrif o blith yr ymatebwyr yn ffafrio ymestyn y cyfnod profiad gwaith y tu hwnt i ddwy flynedd. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys y byddai mwy o brofiad trylwyr a dealltwriaeth ddyfnach yn helpu i sicrhau gallu cyson, a bod hyn yn bwysig yn enwedig o ystyried bod gwirio cywirdeb yn rhan o'r safonau arfaethedig. Awgrymwyd hefyd y byddai cymhwyster hirach yn galluogi hyfforddeion i gael profiad o weithio yn y sector ysbytai a'r sector gymunedol, a lleoliadau gofal iechyd eraill o bosibl.
76. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r cyfnod profiad gwaith fod yn hirach ac y dylai lefel y cymhwyster fod yn uwch na lefel 3 NVQ, os yw'r cymhwyster craidd i gynnwys yr hyn a ystyrir nawr fel ymarfer uwch. Awgrymwyd bod angen cymhwyster technegwyr fferyllol uwch yn wyneb y mathau o rolau a thasgau y maen fferyllwyr technegol nawr yn eu gwneud, a rhoddwyd enghreifftiau o rolau gofal iechyd eraill megis cynorthwyywyr nyrsio a thechnegwyr deintyddol.

## Cwestiwn pump: Sylwadau ac adborth cyffredinol

*Rydym yn cynnig y dylai fferyllwyr sy'n dymuno cofrestru yn dechnegwyr fferyllol orfod cwblhau'r un addysg a hyfforddiant cychwynnol â phobl sy'n hyfforddi cyn cofrestru yn dechnegwyr fferyllol, er y gallent wneud cais i ddarparwr eu cwrs i gydnabod eu dysg a'u profiad blaenorol. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â'r newid arfaethedig hwn a'i effaith bosibl?*

77. Ar hyn o bryd, gall fferyllwyr cofrestredig, neu rai sydd newydd gofrestru, gofrestru'n awtomatig yn dechnegwyr fferyllol. Y cynnig yw dileu'r opsiwn hwn ac y bydd yn rhaid i fferyllwyr sydd am gofrestru'n dechnegwyr fferyllol wneud yr un AHC â thechnegwyr cyn-gofrestru dan hyfforddiant, er y gall darparwyr cyrsiau gydnabod dysgu a phrofiad blaenorol.
78. Derbyniom 332 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
79. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan weithwyr fferyllol proffesiynol a sefydliadau yn cytuno gyda'r cynnig i ddileu'r opsiwn sy'n galluogi fferyllwyr cofrestredig ym Mhrydain a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys rhai sydd newydd gofrestru, gofrestru'n awtomatig fel technegwyr fferyllol.
80. Roedd y rhesymau a nodwyd amlaf dros hyn yn cynnwys:
  - mae'r proffesiynau'n wahanol, a'r hyfforddiant, y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio fel technegydd fferyllol yn wahanol
  - dylai fferyllwyr sydd am weithio fel technegwyr fferyllol gyflawni'r un AHC ag sy'n rhaid i'r technegwyr fferyllol dan hyfforddiant ond y dylai darparwyr cyrsiau allu cydnabod dysgu a phrofiad blaenorol.
81. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y gellid datblygu rhaglenni hyfforddiant penodol ar gyfer rhai oedd am newid eu rôl o fod yn fferyllwyr i fod yn dechnegwyr fferyllol ac awgrymodd ambell un y byddai hyn yn ddefnyddiol ar gyfer fferyllwyr oedd wedi cymhwyso dramor oedd am gofrestru'n dechnegwyr fferyllol yma.
82. Nododd y lleiafrif o blith gweithwyr fferyllol proffesiynol a sefydliadau oedd yn anghytuno gyda'r cynnig hwn y rhesymau hyn dros anghytuno:
  - mae fferyllwyr yn cael eu hyfforddi i lefel uwch na thechnegwyr fferyllol ac mae ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio fel technegwyr fferyllol yn sgil eu gradd a hyfforddiant cyn-gofrestru
  - nid yw'n gwneud synnwyr i orfodi fferyllwyr i wneud cymwysterau lefel is.
83. Roedd ambell ymatebydd yn cwestiynu sut gall fferyllwyr oruchwylio a hyfforddi technegwyr fferyllol heb allu cofrestru fel technegwyr fferyllol a chyflawni'r rôl honno.

## Cwestiwn chwech: Sylwadau ac adborth cyffredinol

*A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â hyfforddiant yn y gweithle a sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant cychwynnol?*

84. Derbyniom 287 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
85. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod y lefel bresennol o oruchwyllo mae'r CFfC yn ei wneud dros y cymhwyster ar gyfer technegwyr fferyllol yn dda, ac roedd eraill yn canu clodydd yr hyfforddiant a'r gefnogaeth yr oedden nhw wedi eu derbyn yn y gweithle yn ystod eu hyfforddiant.
86. Roedd lleiafrif o blith yr ymatebwyr yn teimlo y dylai fod amser dysgu wedi ei neilltuo'n benodol ar gyfer technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant.
87. Roedd themâu eraill a ddaeth i'r amlwg yn ailadrodd themâu a gododd wrth ymateb i gwestiwn dau:
  - Nododd nifer o ymatebwyr eto eu bod o'r farn y dylid safoni hyfforddiant yn y gweithle er mwyn dileu'r gwahaniaethau mewn profiad gwaith a chefnogaeth rhwng gwahanol gyflogwyr a gwahanol sectorau.
  - Awgrymodd rhai y dylid cryfhau'r cyswllt rhwng darparwyr cyrsiau a chyflogwyr, ac y dylid monitro a sicrhau ansawdd hynny. Roedd awgrymiadau ar gyfer prosesau monitro a sicrwydd yn cynnwys defnyddio prosesau a theclynnau monitro HEE er mwyn i'r CFfC achredu rhaglenni hyfforddiant yn y gweithle.
  - Roedd lleiafrif o blith yr ymatebwyr yn teimlo y byddai mwy o gysondeb o ran hyfforddiant a goruchwyliaeth yn y gweithle ar gyfer technegwyr fferyllol dan hyfforddiant pe bai'r hyfforddeion hynny'n cael eu trin yn yr un ffordd â fferyllwyr cyn-gofrestru, a'u bod yn gwneud y profiad gwaith mewn lleoliadau hyfforddi wedi eu cymeradwyo, gyda thiwtor cydnabyddedig. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo y dylai fod gan y bobl sy'n goruchwyllo brofiad cydnabyddedig wedi cofrestru a'u bod wedi eu hyfforddi i fod yn oruchwylwyr abl a bod hynny'n cael ei fonitro.
  - Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y dylai fod cwrs safonol ar gael ac y dylid cryfhau prosesau sicrhau ansawdd sefydliadau a darparwyr cyrsiau. Roedd ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig sicrhau bod sefydliadau a darparwyr cyrsiau yn cyrraedd yr un safonau ac yn defnyddio prosesau asesu gwydn, boed y cyrsiau'n rhai wyneb yn wyneb mewn coleg neu'n gyrsiau dysgu o bell.
  - Awgrymodd lleiafrif o blith yr ymatebwyr y dylai fod arholiad cenedlaethol neu ryw fath o asesiad tua diwedd y cymhwyster.

## Cwestiwn saith: Sylwadau ac adborth cyffredinol

*A ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth yn y safonau neu'r newidiadau a argymhellir i'r meini prawf ar gyfer cofrestru yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp penodol o'i gymharu â grwpiau eraill?*

88. Derbynion 272 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn na fyddai'r safonau na'r newidiadau a awgrymwyd ar gyfer y meini prawf cofrestru yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grwpiau penodol o'u cymharu ag eraill.
89. O'r rhai a deimlai y gellid effeithio ar rai grwpiau o ran un neu ragor o nodweddion gwarchoddedig, roedd ambell ymatebydd o'r farn y gellid effeithio ar bobl hŷn neu bobl o genhedloedd eraill pe bai'r cymhwyster yn cael ei newid yn brentisiaeth wedi ei thargedu at bobl ifanc.
90. Roedd ambell ymatebydd yn teimlo y byddai pobl â sawl blwyddyn o brofiad fferyllol fel cynorthwyr cownteri neu ddosbarthu yn cael eu rhwystro rhag ymgeisio pe bai anghenion derbyn lefel mynediad yn cael eu codi, gan na fyddai ganddynt, o bosibl, y cymwysterau ysgol angenrheidiol. Roedd un ymatebydd o'r farn na ddylai'r gofynion derbyn nodi lefel TGAU Mathemateg a Saesneg yn benodol gan y gallai hyn greu rhwystr artifisial ac awgrymodd y dylid ystyried cymwysterau gwahanol yn lle.
91. Roedd ambell ymatebydd yn poeni y gallai unrhyw newid i'r meini prawf cofrestru, megis newid y cyfnod profiad gwaith dwy flynedd a'r lleiafswm oriau, rhoi rhai sy'n gorfod gweithio'n rhan amser dan anfantais, megis rhai â chyfrifoldebau gofalu, materion iechyd neu anabled, am na allent gyflawni'r deilliannau dysgu mewn cyfnod byrrach. Nododd un ymatebydd y gallai'r gofyniad i wirio cywirdeb presgripsiynau effeithio'n anghymesur ar hyfforddeion â dyslecsia.
92. Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo y gellid effeithio'n anghymesur ar un neu ragor o'r grwpiau neu sectorau canlynol:
  - Sector fferyllfeydd ysbytai gan ei bod yn ymddangos bod llai o bwyslais ar wasanaethau technegol, sicrhau ansawdd, paratoi a gwaith aseptic yn y deilliannau dysgu oedd yn cael eu cynnig.
  - Fferylliaeth ysbyty yn gyffredinol gan ei bod yn ymddangos bod y deilliannau dysgu'n fwy perthnasol i fferylliaeth gymunedol.
  - Technegwyr fferyllol sy'n dymuno gweithio mewn gwasanaethau technegol ysbytai neu ddiwydiant yn hytrach na ward glinigol neu waith dosbarthu gan nad oedd y cymhwyster newydd yn eu paratoi'n ddigonol at y sectorau hynny.
  - Technegwyr fferyllol sydd eisoes yn gweithio ac sydd heb y cymwysterau gwirio cywirdeb a rheoli meddyginiaethau.
  - Fferyllfeydd cymunedol annibynnol gan y gallai'r gwaith o sicrhau ansawdd profiad gwaith fod yn rhy feichus iddynt.
  - Fferyllfeydd cymunedol annibynnol nad oes ganddynt, o bosibl, yr adnoddau a'r seilwaith sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith dysgu ac asesu yn y gweithle sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster newydd.



## Cwestiwn wyth: Sylwadau ac adborth cyffredinol

A oes gennych sylwadau eraill?

93. Derbyniom 150 o ymatebion i'r cwestiwn olaf hwn, a gafodd ei gynnwys er mwyn sicrhau y gallai ymatebwyr grybwyll unrhyw bryderon oedd ganddynt nad oedd yn berthnasol i'r saith cwestiwn blaenorol.
94. Cododd rhai ymatebwyr yr un pryderon ag y gwnaethon nhw mewn cwestiynau blaenorol, gan ymhelaethu arnynt, a chododd rhai faterion newydd.
95. Mynegwyd rhai pryderon am ein datganiad yn y ddogfen ymgynghori (tudalen 11) bod ein hymchwil wedi dangos bod angen diweddarau'r safonau gan fod *'angen i ni ddileu cyfeiriadau at weithdrefnau technegol anarferedig'*. Holwyd a fyddai hyn yn effeithio ar y nifer o dechnegwyr fferyllol â'r sgiliau a'r wybodaeth i weithio mewn fferyllfeydd ysbytai a fyddai ar gael.
96. Mynegwyd pryderon am effaith bosibl y cynigion ar gyrsiau coleg llawn amser yn yr Alban sy'n cefnogi technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant sy'n gweithio rhan amser. Mynegodd ambell ymatebydd bryder na fyddai'r cyrsiau hyn yn bosibl pe bai'r system yn symud tuag at gymhwyster cyfunol. Awgrymwyd y dylai fod yn bosibl parhau â chwrs llawn amser ac yna gyfnod ar brofiad gwaith, yn debyg i strwythur y cymhwyster fferyllwyr.
97. Awgrymwyd y byddai angen trafodaeth bellach gyda cholegau Addysg Bellach a'r sector fferyllol i fynd i'r afael â hyn. Mynegwyd pryder hefyd nad oedd sôn yn yr ymgynghoriad am gyrsiau uwch sydd ar gael yn yr Alban i helpu pobl i symud yn eu blaen yn eu gyrfa.
98. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i gwestiwn 8 yn cefnogi'r safonau AHC arfaethedig. Rhoddwyd cefnogaeth bellach i gynnwys gwirio cywirdeb a rheoli meddyginiaethau gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn sgiliau craidd a fyddai'n galluogi gweithlu'r technegwyr fferyllol i gyfrannu'n effeithiol at ofal cleifion.
99. Cafwyd hefyd safbwyntiau oedd yn groes i hyn fodd bynnag. Roedd rhai yn teimlo bod y safonau AHC arfaethedig yn 'israddio' y rôl gan nad ydynt yn ystyried y lefel o brofiad sydd ei hangen i ymgymryd â'r rolau hyn yn effeithiol nac yn ystyried yr effaith y gallai hyn ei chael ar ddiogelwch cleifion.
100. Mynegwyd gofid hefyd y byddai cynnwys gwirio cywirdeb a rheoli meddyginiaethau yn y safonau AHC yn lleihau'r cyfle am gynnydd o fewn gyrfa yn y dyfodol.
101. Cafwyd cefnogaeth i'r syniad o un cymhwyster ar gyfer fferylliaeth mewn cymunedau ac mewn ysbytai, gan y byddai hyn yn rhoi sicrwydd bod pob technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn cyrraedd yr un safonau.
102. O ran hyd y cymhwyster arfaethedig, mynegwyd barn na ddylid colli sgiliau arbenigol er mwyn gallu cywasgu'r cymhwyster i gyfnod byrrach. Os yw gwirio cywirdeb a rheoli meddyginiaethau nawr yn ofynion craidd yng ngwaith technegwyr fferyllol, ni ddylai hyn fod ar draul arbenigedd technegol gweithredol gyda meddyginiaethau.

103. Cafwyd awgrym y gellid cynnwys deilliant dysgu newydd yn ymwneud â risgiau ac atal ymwrthedd i gyffuriau ac y byddai hyn yn cefnogi Strategaeth Bum Mlynedd Ymwrthedd i Gyffuriau 2013 – 2018 y DU.
104. O ran y meini prawf cofrestru, mynegwyd gofid y gallai'r cyfnod pum mlynedd a ganiateir ar hyn o bryd i gwblhau cymhwyster y technegwyr fferyllol fod yn rhy hir.
105. I gloi, gwnaed cais am fwy o eglurder ynghylch pryd y byddai'r safonau AHC newydd yn cael eu cyflwyno.

## Atodiad A: Sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad

1	Greater Manchester West Mental Health NHS Foundation Trust
2	Stockport NHS Foundation Trust
3	Bradford College
4	The LTE group
5	Norfolk and Norwich University Hospital
6	Hospital Workforce Development Group (NE & N Cumbria)
7	North Essex Partnership University NHS Foundation Trust
8	NHS/GIG
9	HEE NE Pharmacy Subgroup
10	East of England Pharmacy Technician Education and Development Leads Group
11	DUDLEY GROUP NHS FOUNDATION TRUST
12	Health Education England - London and South East (pharmacy leads group)
13	Health Education England - London and South East (pharmacy workforce group)
14	Walsall College
15	Community Pharmacy Scotland
16	NHS Grampian
17	Royal Wolverhampton NHS Trust
18	SWMIT IQAs
19	Westminster Kingsway College
20	Welsh Centre for Pharmacy Professional Education/Canolfan Addysg Fferyllol Broffesiynol Cymru
21	South Essex Partnership University NHS Foundation Trust
22	Salford Royal NHS Foundation Trust
23	School of Pharmacy, University of East Anglia
24	Royal Surrey County, Ashford & St Peters, Frimley Health
25	NHS Sheffield CCG

26	Hampshire hospitals NHS Foundation Trust
27	East Sussex Local Pharmaceutical Committee
28	South West regional IQA'S
29	Rowlands Pharmacy
30	The Pharmacy Department, Walsall Healthcare NHS Trust
31	APTUK
32	North Cumbria University Hospitals NHS Trust
33	Liverpool Heart and Chest Hospital NHS Foundation Trust
34	NHS Fife
35	Nottingham University Hospitals NHS Trust
36	Health Education England
37	Health education England - Thames Valley
38	Northumbria Healthcare NHS Foundation Trust
39	South West Medicines Information and Training, University Hospitals Bristol NHS FT
40	Royal Wolverhampton NHS Trust
41	Welsh Pharmaceutical Committee/ Pwyllgor Fferyllol Cymru
42	Royal Free London NHS Foundation Trust
43	NHS Education for Scotland
44	Aneurin Bevan University Healthboard/ Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
45	Royal Pharmaceutical Society/Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
46	NHS Education for Scotland
47	Dispensing Doctors' Association Ltd
48	Edinburgh College
49	NHS Greater Glasgow & Clyde
50	Health Education England; London and South East Pharmacy Team
51	NHS Education for Scotland
52	University Hospitals Southampton NHS FT

53	Glasgow Kelvin College
54	South Staffordshire Local Pharmaceutical Committee
55	Royal Brompton and Harefield foundation trust
56	NHS Pharmaceutical Aseptic Services Group (PASG)
57	Lancashire Teaching Hospital NHS Foundation Trust
58	NHS Technical Specialist Education and Training
59	NHS Pharmacy Education and Development Group UK - Pharmacy Technician and Support Staff sub-group
60	Pharmacy Department Sandwell & West Birmingham Hospitals NHS Trust
61	Pharmacy Education and Training Leads, NHS Wales/ Arweinwyr Addysg a Hyfforddiant Fferyllol, GIG Cymru
62	NHS Tayside
63	West Midlands Technical Services Group
64	NHS Ayrshire & Arran
65	Heart of England Foundation Trust – Pharmacy
66	Isle of Wight NHS Trust
67	UCLH
68	Area Professional Pharmaceutical Committee, NHS Ayrshire & Arran
69	City & Guilds
70	Scientia Skills
71	Cambridge University Hospitals NHS Foundation Trust
72	Centre for Pharmacy Postgraduate Education
73	Pharmacy Voice
74	Pharmacy Forum NI
75	Pharmacists' Defence Association
76	National Pharmacy Association

## Atodiad B: Digwyddiadau ymglymu

1	Westminster Kingsway College
2	Cyfarfod pwyllgor proffesiynol APTUK
3	Digwyddiad unedig Dwyrain Lloegr
4	Cyfarfod Rheolwyr Dosbarthu Rhanbarth y West Midlands
5	NHS Education for Scotland
6	Grŵp ffocws cleifion a'r cyhoedd (Llundain)
7	Cyfarfod rhanbarthol gydag arweinwyr Addysg a Hyfforddiant y Gogledd Ddwyrain a Gogledd Cumbria
8	Preston College
9	Cyfarfod Cyfarwyddwr/Arweinwyr Rhaglen Addysg Technegwyr Fferyllol Llundain a'r De Ddwyrain
10	Cyfarfod cangen Llundain APTUK London
11	West College Scotland
12	Grŵp ffocws cleifion a'r cyhoedd (Glasgow)

Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda chleifion a digwyddiad ar gyfer rhanddeiliad yng Nghaerdydd ar dri ymgynghoriad (meini prawf trothwy, Crefydd, gwerthoedd personol a chredoau a AHC technegwyr fferyllol) ond yn anffodus ni fu amser i drafod AHC technegwyr fferyllol.